# Prosesu canlyniadau gwrandawiadau llys a thribiwnlys

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â phrosesu canlyniadau gwrandawiadau. Mae'n cynnwys prosesu'r camau a gytunwyd gan lysoedd a thribiwnlysoedd a derbyn canlyniadau sy'n ymwneud ag achosion gorfodi, prosesu'r rhain a, lle bo'n berthnasol, hysbysu'r awdurdodau priodol i ymgymryd â'r camau cytûn.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd, tribiwnlysoedd neu erlyniadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cofnodi canlyniadau llysoedd a thribiwnlysoedd, yn unol â gofynion sefydliadol 2. paratoi dogfennau'n ymwneud â chanlyniadau, yn unol â gofynion sefydliadol 3. blaenoriaethu achosion sy'n gofyn am gyhoeddi gorchmynion a chyfarwyddiadau brys a dybryd, yn unol â gofynion sefydliadol 4. cyhoeddi gorchmynion brys a dybryd, yn unol â gofynion sefydliadol 5. cyfeirio agweddau sy'n ymwneud â phrosesu canlyniadau sydd y tu allan i'ch maes arbenigedd neu awdurdod, yn unol â gofynion sefydliadol 6. hysbysu partïon am ganlyniadau achosion, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 7. cadw gwybodaeth yn ddiogel, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol 8. sicrhau bod cofnodion achos yn cael eu cynnal, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol sy'n ymwneud â phrosesu canlyniadau mewn gwrandawiadau llys a thribiwnlys
2. pwysigrwydd nodi a phrosesu gorchmynion a chyfarwyddiadau brys a dybryd a sut i wneud hyn, pan fo hyn yn berthnasol i'ch maes gweithrediadau
3. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer prosesu apeliadau, gan gynnwys:
3.1 rhesymau cymhwyso y gellir apelio ar eu sail
3.2 terfynau amser ar gyfer prosesu canlyniadau
4. lefelau eich awdurdod, ac at bwy y dylid cyfeirio os eir y tu hwnt i hyn
5. sefydliadau sy'n berthnasol i lysoedd a thribiwnlysoedd a'u gwahanol feysydd gweithgarwch a lefelau awdurdod
6. gofynion sefydliadol ar gyfer cynnal cofnodion achos

Prosesu canlyniadau gwrandawiadau llys a thribiwnlys

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Sgiliau er Cyfiawnder |
| **RCU gwreiddiol** | SFJ DG1 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys |
| **Cyfres/Set** | Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau |
| **Geiriau Allweddol** | llys; tribiwnlys; achos; gwrandawiadau; gorfodi; proses; canlyniadau |